# COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL

# Y CABINET

# DYDD LLUN, 18 MAWRTH 2024

**Cabinet Members:**

Cynghorwyr:: S.K.Hunt, S.A.Knoyle, N.Jenkins, J.Hurley, J.Hale, A.Llewelyn, W.F.Griffiths, S.Jones a/ac C.Phillips

**Swyddogion yn bresennol:**

N.Pearce, A.Jarrett, C.Griffiths, N.Daniel, A.Thomas, H.Jones, M.Roberts, C.Saunders, C.Howard, A.Hinder, A.Thomas a/ac T.Davies

---

## 1. PENODI CADEIRYDD

Cytunwyd i benodi'r Cynghorydd S K Hunt yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

## 2. CYHOEDDIAD(AU)'R CADEIRYDD

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

## 3. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Gwnaeth yr aelod canlynol ddatganiad o fudd ar ddechrau'r cyfarfod:

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd J Hale | Cofnod Rhif 5 – Premiwm Treth y Cyngor ar Anheddau Gwag Hirdymor ac Ail Gartrefi – datganodd y Cynghorydd Hale fuddiant sy'n rhagfarnu, a gadawodd y cyfarfod ar gyfer y drafodaeth a'r phleidleisio ar yr eitem hon. |

## 4. AMSER CWESTIYNAU CYHOEDDUS

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

## 5. PREMIWM TRETH Y CYNGOR AR ANHEDDAU GWAG HIRDYMOR AC AIL GARTREFI

Ar y pwynt hwn yn y cyfarfod, ailddatganodd y Cynghorydd J Hale ei budd yn yr eitem hon, a gadawodd y cyfarfod ar gyfer y drafodaeth a'r bleidlais ar hynny.

**Penderfyniadau:**

Bod y canlynol, ar ôl rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Effaith Integredig, yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor i'w gymeradwyo:

1. Bod Premiwm Treth y Cyngor o 100% ar Anheddau Gwag Hirdymor ac Ail Gartrefi'n cael ei gymeradwyo gyda dyddiad gweithredu o fis Ebrill 2025.

2. Ni chodir unrhyw bremiwm lle gellir cael mynediad i eiddo gwag trwy adeilad busnes yn unig ac nad oes ganddo fynedfa ar wahân. Ni fydd y categori hwn yn berthnasol os yw'r adeilad yn cael ei newid i gael gwared ar fynedfa ar wahân bresennol.

3. Ni chodir unrhyw bremiwm lle byddai premiwm yn daladwy ar eiddo gwag hirdymor sy'n cael ei werthu, ni chodir premiwm ar y perchennog newydd am hyd at 6 mis o'r dyddiad gwerthu tra bod gwaith adeiladu mawr yn cael ei wneud.

**Rhesymau dros y Penderfyniadau:**

1. Er mwyn caniatáu i bremiymau Treth y Cyngor gael eu codi ar eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi, yn effeithiol o 1 Ebrill 2025.

2. I annog perchnogion tai i ddychwelyd eu heiddo i ddefnydd da.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Bydd y penderfyniadau'n cael eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

6. **EITEMAU BRYS**

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.

7. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD - EITHRIO'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD**: Yn unol â Rheoliad 4 (3) a (5) Offeryn Statudol 2001 Rhif 2290, fod y cyhoedd yn cael eu gwahardd ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol a oedd yn debygol o gynnwys datgelu gwybodaeth eithriedig fel a ddiffinnir ym Mharagraff 14 Rhan 4 Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

8. **HYSBYSIAD CYTUNDEB FFURFIOL HAMDDEN CELTIC**

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Sgrinio Effaith Integredig, fod awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Cyfarwyddwr Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes i gyhoeddi hysbysiad ffurfiol i Hamdden Celtic, ar y ffurflen sydd wedi'i hatodi yn Atodiad A i'r adroddiad preifat a gylchredwyd.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Cydymffurfio â thelerau'r Contract, a galluogi i'r holl opsiynau ynghylch dyfodol darparu hamdden dan do gael eu hystyried yn llawn.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar unwaith, yn dilyn cytundeb y Cadeirydd Craffu.

9. **DIWEDDARIAD AR Y RHAGLEN GYFALAF YN DILYN CANLYNIAD YR YMARFER TENDRO**

**Penderfyniadau:**

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Effaith Integredig:

1. Bod y Gyllideb Gyfalaf ar gyfer prosiect gwaith i adleoli'r cerbydlu gwastraff yn cynyddu o'r £3.4 miliwn y cytunwyd arno'n wreiddiol i'r cyfanswm diwygiedig o £6.050 miliwn.

2. Bod y Pennaeth Gofal Strydoedd, mewn ymgynghoriad â Phennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd, yn cael awdurdod dirprwyedig i ymrwymo i'r contract ar gyfer gwaith gyda'r cynigiwr llwyddiannus er mwyn adleoli'r cerbydlu casglu gwastraff ar gyfer yr Orsaf Drosglwyddo.

**Rheswm dros y penderfyniadau:**

Er mwyn caniatáu i'r gwaith i adleoli'r cerbydlu gwastraff fynd yn ei flaen.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Bydd y penderfyniadau'n cael eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

**Ymgynghoriad:**

Cynhaliwyd ymgynghoriad staff a lywiodd y cynigion fel yr adroddwyd amdanynt i'r Cabinet ar 28 Gorffennaf 2022.

**CADEIRYDD**